

Safonau'r Gymraeg: Dogfen hwyluso

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys rhestr o safonau moel wedi eu rhifo. Swyddogion Comisiynydd y Gymraeg sydd wedi tynnu'r rhestr hwn allan o gorff dogfen ymgynghorol ddrafft Llywodraeth Cymru ar safonau'r Gymraeg.

Pwrpas gwneud hyn oedd hwyluso'r broses o ddarparu ymateb i Lywodraeth Cymru.

O bryd i'w gilydd mae ymateb Comisiynydd y Gymraeg yn cyfeirio at y safonau sydd ynghlwm wrth eu rhif

Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

- 1 "Rhaid i sefydliad sy'n derbyn unrhyw ohebiaeth Gymraeg ei hateb yn Gymraeg, os oes angen ateb, oni bai fod y sawl sy'n gohebu wedi dweud ei bod yn well ganddo beidio â derbyn ateb yn Gymraeg"
- 2 "Os oes gan y sefydliad bolisi o ateb gohebiaeth sy'n dod i law yn Saesneg o fewn cyfnod penodol, rhaid iddo hefyd ateb gohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg o fewn yr un cyfnod"
- 3 "Os yw'r staff sy'n delio â gohebiaeth yn gwybod y byddai'n well gan y person dderbyn yr ohebiaeth yn Gymraeg, rhaid i sefydliadau sicrhau bod yr ohebiaeth yn cael ei hanfon yn Gymraeg"
- 4 "Os caiff gohebiaeth ei hanfon i gyfeiriad, a bod y staff sy'n delio â'r ohebiaeth yn gwybod bod y Gymraeg yn un o'r dewis ieithoedd yn y cyfeiriad hwnnw, rhaid anfon yr ohebiaeth ar ffurf sy'n cynnwys fersiwn Gymraeg"
- 5 "Lefel 1: rhaid i sefydliadau sicrhau bod gohebiaeth a anfonir yn Saesneg hefyd yn cael ei hanfon yn Gymraeg, ar yr un pryd"

"Lefel 2: Rhaid i sefydliadau sicrhau bod gohebiaeth a anfonir yn Saesneg hefyd yn cael i hanfon yn Gymraeg, ar yr un pryd, dan unrhyw un o'r amodau canlynol:

- Yn achos gohebiaeth at gorff arall, mae'r staff sy'n delio â'r ohebiaeth yn gwybod bod y corff yn ymwneud â hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg, neu â darparu addysg Gymraeg
- Mae'r ohebiaeth yn ymwneud â gwasanaeth ar gyfer:
 - Plant a phobl ifanc
 - Datblygu cymunedol
 - Amaethyddiaeth
 - Datblygu gwledig
 - Diwylliant
 - Addysg a hyfforddiant

- Hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg

6 “Lefel 1: rhaid anfon gohebiaeth yn y Gymraeg ar yr un pryd â'r Saesneg”

“Lefel 2: rhaid i sefydliadau sicrhau bod gohebiaeth a anfonir yn Saesneg hefyd yn cael ei hanfon yn y Gymraeg, os yw unrhyw un o'r amodau canlynol yn berthnasol:

- Yn achos gohebiaeth ar gyfer y cyhoedd, gellir cadarnhau o ganlyniadau y Cyfrifiad mwyaf diweddar fod dros 10% o boblogaeth yr ardal y dosberthir yr ohebiaeth ynddi yn gallu siarad Cymraeg.
- Yn achos gohebiaeth ar gyfer cyrff eraill, mae o leiaf un o'r cyrff dan sylw'n ymwneud â hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg, neu'n ymwneud â hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg, neu'n ymwneud â darparu addysg Gymraeg
- Os yw'r ohebiaeth yn ymwneud â:
 - Gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc
 - Datblygu cymunedau
 - Amaethyddiaeth
 - Datblygu gwledig
 - Diwylliant
 - Addysg a hyfforddiant, neu
 - Hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg

7 “Dylid amgáu deunydd Cymraeg gyda gohebiaeth a anfonir yn Gymraeg yn unig, os oes fersiwn Gymraeg ar gael o'r deunydd hwnnw. Gall y fersiwn Gymraeg fod yn rhan o ddogfen dwyieithog.”

8 “Os amgaeir deunydd Saesneg gyda gohebiaeth a anfonir yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg, dylid amgáu fersiwn Gymraeg hefyd os oes fersiwn Gymraeg ar gael ohono. Gall y fersiwn Gymraeg fod yn rhan o ddogfen dwyieithog os mai dim ond fersiwn Gymraeg sydd ar gael o'r deunydd amgaeir, rhaid amgáu'r fersiwn honno gyda'r ohebiaeth”

9 “Os amgaeir deunydd Saesneg gyda gohebiaeth a anfonir yn Saesneg yn unig, rhaid amgáu fersiwn Gymraeg hefyd os oes fersiwn Gymraeg ar gael ohono. Os amgaeir fersiwn Gymraeg, gall fod yn rhan o ddogfen dwyieithog. Os mai dim ond fersiwn Gymraeg sydd ar gael o'r deunydd a amgaeir, rhaid amgáu'r fersiwn honno gyda'r ohebiaeth”

10 “Os yw'r ohebiaeth yn Gymraeg yn unig, rhaid i'r deunydd a amgaeir fod yn Gymraeg hefyd”

- 11 “Os yw’r ohebiaeth yn cynnwys fersiwn Gymraeg, rhaid i’r deunydd a amgaeir fod ar ffurf sy’n cynnwys fersiwn Gymraeg”
- 12 “Rhaid llofnodi’r fersiwn Gymraeg os yw fersiwn Saesneg yr ohebiaeth yn cael ei llofnodi”
- 13 “Os yw’r e-bost yn cynnwys llofnod electronig, rhaid i’r llofnod hwnnw fod yn Gymraeg, neu os yw’n llofnod Saesneg, rhaid iddo hefyd gynnwys fersiwn Gymraeg”
- 14 “Rhaid i’r sefydliad egluro i’r cyhoedd ei fod yn croesawu gohebiaeth Gymraeg ac na fydd ysgrifennu ato yn Gymraeg, ohono’i hun, yn golygu y bydd oedi wrth ddelio â’r ohebiaeth”
- 15 “Rhaid i unrhyw ohebiaeth Saesneg a anfonir gan y sefydliad egluro wrth y derbynnydd y bydd [sic] y gall y sefydliad ohebu ag ef/hi yn Gymraeg”
- 16 “Lefel 1: Gwasanaeth Cymraeg ar gael bob amser:
- Is-lefel i) Rhaid i’r sefydliad ddarparu’r un rhif ffôn ar gyfer galwyr sydd am ddefnyddio’r Gymraeg ar gyfer galwyr sydd am ddefnyddio’r Saesneg. Os atebir galwad ffôn gyda chyfarchiad Saesneg, rhaid hefyd ddefnyddio’r cyfarchiad Cymraeg cyfatebol. Rhaid i’r sefydliad sicrhau bod galwyr sy’n cysylltu yn gallu dewis siarad â staff Cymraeg eu hiaith ar y switsfwrdd neu yn dderbynfa, a rhaid i’r aelodau staff hynny allu delio â’r alwad yn Gymraeg. Os oes neges Saesneg yn gwahodd galwyr i ddewis siarad â staff y dderbynfa neu’r switsfwrdd yn Gymraeg, rhaid rhoi’r neges honno yn Gymraeg hefyd.
 - Is-lefel ii) Rhaid i’r sefydliad fod â rhif ffôn penodol er mwyn i’r rheini sy’n galw allu cysylltu’n uniongyrchol â staff Cymraeg eu hiaith ar y switsfwrdd neu yn y dderbynfa. Rhaid i’r aelodau staff hynny ateb galwadau gyda chyfarchiad Cymraeg a rhaid iddynt allu ddelio â’r alwad yn Gymraeg.

Lefel 2: Gwasanaeth Cymraeg heb fod ar gael bob amser:

- Os atebir galwad ffôn gyda chyfarchiad Saesneg, rhaid hefyd ddefnyddio cyfarchiad Cymraeg cyfatebol. Os bydd y sawl sy’n galw yn ymateb i’r cyfarchiad yn Gymraeg, rhaid iddo allu dewis siarad â staff Cymraeg eu hiaith ar y switsfwrdd neu yn y dderbynfa, os ydynt ar gael.
- Is-lefel i) Rhaid bod y switsfwrdd a/neu’r dderbynfa yn gallu darparu gwasanaeth Cymraeg o leiaf 75% o’r amser y mae’r sefydliad yn gallu delio â galwadau ffôn yn Saesneg. Rhaid i’r aelodau staff hynny allu delio â’r alwad yn Gymraeg.

- Is-lefel ii) Rhaid bod y switsfwrdd a/neu'r dderbynfa yn gallu darparu gwasanaeth Cymraeg o leiaf 50% o'r amser y mae'r sefydliad yn gallu delio â galwadau ffôn yn Saesneg. Rhaid i'r aelodau staff hynny allu delio â'r alwad yn Gymraeg.
 - Is-lefel iii) Rhaid bod y switsfwrdd a/neu'r dderbynfa yn gallu darparu gwasanaeth Cymraeg o leiaf 25% 'r amser y mae'r sefydliad yn gallu delio â galwadau ffôn yn Saesneg., Rhaid i'r aelodau staff hynny allu delio â'r alwad yn Gymraeg."
- 17 "Oni bai fod y galwr am siarad ag aelod penodol o staff, rhaid gofyn i'r galwyr a hoffent gael eu trosglwyddo i aelod staff Cymraeg ei iaith sy'n gallu delio â'u galwad, gan egluro mai dim ond os oes aelod staff Cymraeg ei iaith o'r fath ar gael y gellir gwneud hyn"
- 18 "Os bydd y galwr yn dweud yr hoffai gael ie drosglwyddo i aelod staff Cymraeg ei iaith sy'n gallu â'i alwad, rhaid ceisio gwneud hynny"
- 19 "Os nad oes aelod staff Cymraeg ei iaith a gyflogir gan y sefydliad, sy'n gallu delio â'r alwad, ar gael ar adeg yr alwad, rhaid i'r dewisiadau a gynigir i unrhyw un sy'n dymuno trafod ei alwad yn Gymraeg gynnwys aros nes bod siaradwr Cymraeg ar gael i'w ffonio'n ôl neu ysgrifennu yn Gymraeg at y sefydliad"
- 20 "Os nad yw'r sefydliad yn cyflogi aelod staff Cymraeg ei iaith sy'n gallu delio â'r alwad, rhaid i'r dewisiadau a gynigir i unrhyw un oedd am drafod ei alwad yn Gymraeg gynnwys ysgrifennu yn Gymraeg at y sefydliad"
- 21 "Lefel 1) Rhaid ateb pob galwad â chyfarchiad Cymraeg sy'n cyfateb i'r cyfarchiad a roddir yn Saesneg (oni bai mai dim ond drwy enw person yr atebir yr alwad)."
- 22 "Os oes angen trosglwyddo galwad, rhaid gofyn i'r sawl sy'n galw a hoffai gael ei drosglwyddo i aelod staff Cymraeg ei iaith syn gallu delio â'r alwad, gan egluro mai dim ond os oes y fath aelod o staff ar gael y gelir gwneud hyn."
- 23 "Os bydd y galwr yn dweud yr hoffai gael i drosglwyddo i aelod o staff Cymraeg ei iaith sy'n gallu delio â'i alwad, rhaid ceisio gwneud hynny."
- 24 "Os nad oes aelod staff Cymraeg ei iaith a gyflogir gan y sefydliad, sy'n gallu delio â'r alwad, ar gael ar adeg yr alwad, rhaid i'r dewisiadau a gynigir i unrhyw un sy'n dymuno trafod ei alwad yn Gymraeg gynnwys aros nes bydd siaradwyr Cymraeg ar gael i'w ffonio'n ôl neu ysgrifennu yn Gymraeg at y sefydliad"

- 25 “Os nad yw’r sefydliad yn cyflogi aelod staff Cymraeg ei iaith sy’n gallu delio â’r alwad, rhaid i’r dewisiadau a gynigir i unrhyw un oedd am drafod ei alwad yn Gymraeg gynnwys ysgrifennu yn Gymraeg at y sefydliad”
- 26 “Rhaid i systemau ateb y ffôn yn awtomatig ddarparu gwasanaeth yn y Gymraeg sydd o’r un safon ag unrhyw wasanaeth cyfatebol a ddarperir yn Saesneg”
- 27 Lefel 1) Rhaid i linellau cymorth a chanolfannau galwadau allu darparu gwasanaeth Cymraeg pryd bynnag y mae gwasanaeth Saesneg ar gael.
- Lefel 2) Rhaid i linellau cymorth a chanolfannau galwadau allu darparu gwasanaeth Cymraeg o leiaf 75% o’r amser y mae llinell gymorth neu ganolfan alwadau’r sefydliad ar agor. Os yw galwr sydd am siarad Cymraeg yn cysylltu â’r llinell gymorth neu’r ganolfan alwadau ar adeg pan nad oes aelod staff Cymraeg ei iaith ar gael i ddelio â’r alwad, rhaid cynnig iddo aros i aelod staff Cymraeg ei iaith ei ffonio’n ôl neu iddo ysgrifennu yn Gymraeg at y sefydliad.
- Lefel 3) Rhaid i linellau cymorth a chanolfannau galwadau allu darparu gwasanaeth Cymraeg o leiaf 50% o’r amser y mae llinell gymorth neu ganolfan alwadau’r sefydliad ar agor. Os yw galwr sydd am siarad Cymraeg yn cysylltu â’r linell gymorth neu’r ganolfan alwadau ar adeg pan nad oes aelod staff Cymraeg ei iaith ar gael i ddelio â’r alwad, rhaid iddo aros i aelod staff Cymraeg ei iaith ei ffonio’n ôl neu iddo ysgrifennu yn Gymraeg at y sefydliad
- Lefel 4) Rhaid i linellau cymorth a chanolfannau galwadau allu darparu gwasanaeth Cymraeg o leiaf 25% o’r amser y mae llinell gymorth neu ganolfan alwadau’r sefydliad ar agor. Os yw galwr sydd am siarad Cymraeg yn cysylltu â’r llinell gymorth neu’r ganolfan alwadau ar adeg pan nad oes aelod staff Cymraeg ei iaith ar gael i ddelio â’r alwad, rhaid cynnig iddo aros i aelod staff Cymraeg ei iaith ffonio’n ôl neu iddo ysgrifennu yn Gymraeg at y sefydliad.”
- 28 “Rhaid i linellau cymorth a chanolfannau galwadau sicrhau mai neges yn egluro bod gwasanaeth Cymraeg ar gael, ac yn nodi oriau’r gwasanaeth hwnnw, yw’r neges gyntaf y mae galwyr yn ei chlywed wrth gysylltu â’r llinell gymorth neu’r ganolfan alwadau”
- 29 “Rhaid hysbysebu gwasanaethau Cymraeg llinellau cymorth a chanolfannau galwadau ochr yn ochr â’r gwasanaethau Saesneg cyfatebol”

- 30 “Rhaid i'r gwasanaeth Cymraeg fod â'r un rhif ffôn â'r gwasanaeth Saesneg.”
- 31 “Rhaid i'r gwasanaeth Cymraeg fod â'r un targedau â'r gwasanaeth Saesneg, o ran yr amser a gymer i ateb galwadau.”
- 32 “Rhaid i systemau ateb y ffôn yn awtomatig ddarparu gwasanaeth yn y Gymraeg sydd o'r un safon ag unrhyw wasanaeth cyfatebol a ddarperir yn Saesneg”
- 33 “Oni bai fod staff sy'n trefnu'r cyfarfod yn gwybod pa un yw dewis iaith yr unigolyn neu'r unigolion sy'n mynychu'r cyfarfod, rhaid gofyn iddynt, wrth drefnu'r cyfarfod a ydynt yn dymuno siarad Cymraeg yn y cyfarfod. Dylid egluro, os oes angen, mai dim ond os oes gan y sefydliad aelod staff Cymraeg ei iaith sydd ar gael ac syn gallu delio â'r mater yn Gymraeg , y gellir gwneud hyn.”
- 34 “Os yw'n hysbys mai Cymraeg yw dewis iaith yr unigolyn neu'r unigolion sy'n mynychu'r cyfarfod, neu os dywed unrhyw un sy'n mynychu'r cyfarfod ei fod am siarad Cymraeg, a bod gan y sefydliad aelod staff Cymraeg ei iaith sydd ar gael i fynychu'r cyfarfod ac sy'n gallu delio â'r mater yn Gymraeg, rhaid i aelod neu aelodau staff Cymraeg eu hiaith sy'n gallu delio â'r mater yn Gymraeg fynychu'r cyfarfod.”
- 35 “Os yw'n hysbys mai Cymraeg yw dewis iaith yr unigolyn neu'r unigolion sy'n mynychu'r cyfarfod, neu os dywed unrhyw berson sy'n mynychu'r cyfarfod ei fod am siarad Cymraeg, ac nad oes gan y sefydliad aelod staff Cymraeg ei iaith sydd ar gael ar amser neu ddyddiad y cyfarfod arfaethedig ac sy'n gallu delio â'r mater yn Gymraeg, rhaid i'r sefydliad gynnig:
- Os yw'r sefydliad yn cyflogi aelod staff Cymraeg ei iaith syn gallu delio â'r mater, aildrefnu'r cyfarfod ar gyfer adeg pryd y bydd aelod staff sy'n gallu delio â'r mater yn Gymraeg ar gael i fynychu'r cyfarfod.
 - Trefnu'r cyfarfod ar adeg pryd y gellir darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu gyfieithu olynol.
 - Rhoi cyfle i'r unigolyn neu'r unigolion drafod y mater yn Gymraeg, ond drwy ohebiaeth.”
- 36 “Oni bai fod yr aelodau staff sy'n delio â'r unigolyn neu unigolion yn gwybod pa un yw eu dewis iaith, dylid gofyn iddynt a ydynt am siarad Cymraeg yn y cyfarfod,. Dylid egluro, os oes angen, mai dim ond os oes gan y sefydliad aelod staff Cymraeg ei iaith sydd ar gael ac sy'n gallu delio â'r mater yn Gymraeg y gellir gwneud hyn”

- 37 “Os yw’n hysbys mai Cymraeg yw dewis iaith yr unigolyn neu’r unigolion sy’n mynychu’r cyfarfod, neu os dywed unrhyw un sy’n mynychu’r cyfarfod ei fod am siarad Cymraeg, a bod gan y sefydliad aelod staff Cymraeg ei iaith sydd ar gael i fynychu’r cyfarfod ac sy’n gallu delio â’r mater yn Gymraeg, rhaid i aelod neu aelodau staff Cymraeg eu hiaith sy’n gallu delio â’r mater yn Gymraeg fynychu’r cyfarfod”
- 38 “Os yw’n hysbys mai Cymraeg yw dewis iaith yr unigolyn neu’r unigolion sy’n mynychu’r cyfarfod, neu os dywed unrhyw un sy’n mynychu’r cyfarfod ei fod am siarad Cymraeg, ac nad oes gan y sefydliad aelod staff Cymraeg ei iaith sydd ar gael ar yr adeg y gofynnodd y person am y cyfarfod ac sy’n gallu delio â’r mater yn Gymraeg, rhaid i’r sefydliad gynnig:
- Os yw’r sefydliad yn cyflogi aelod staff Cymraeg ei iaith sy’n gallu delio â’r mater, aildrefnu’r cyfarfod ar gyfer adeg pryd y bydd aelod staff sy’n gallu delio â’r mater yn Gymraeg ar gael i fynychu’r cyfarfod
 - Aildrefnu’r cyfarfod ar gyfer adeg y gellir darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu gyfieithu olynol
 - Rhoi cyfle i’r unigolyn neu’r unigolion drafod y mater yn Gymraeg, ond drwy ohebiaeth.
- 39 “Oni bai fod y staff sy’n trefnu’r cyfarfod yn gwybod pa un yw dewis iaith yr unigolyn neu’r unigolion sy’n mynychu’r cyfarfod, rhaid gofyn iddynt, wrth drefnu’r cyfarfod, a ydynt am siarad Cymraeg yn y cyfarfod. Dylid egluro, os oes angen, mai dim ond os oes gan y sefydliad aelod staff Cymraeg ei iaith sydd ar gael ac sy’n gallu delio â’r mater yn Gymraeg y gellir gwneud hyn.”
- 40 “Os yw’n hysbys mai Cymraeg yw dewis iaith yr unigolyn neu’r unigolion sy’n mynychu’r cyfarfod, neu os dywed unrhyw un sy’n mynychu’r cyfarfod ei fod am siarad Cymraeg, a bod gan y sefydliad aelod staff Cymraeg ei iaith sydd ar gael i fynychu’r cyfarfod ac sy’n gallu delio â’r mater yn Gymraeg, rhaid i aelod neu aelodau staff Cymraeg eu hiaith sy’n gallu delio â’r mater yn Gymraeg fynychu’r cyfarfod.”
- 41 “Os yw’n hysbys mai Cymraeg yw dewis iaith yr unigolyn neu’r unigolion sy’n mynychu’r cyfarfod, neu os dywed unrhyw un sy’n mynychu’r cyfarfod ei fod am siarad Cymraeg, ac nad oes gan y sefydliad aelod staff Cymraeg ei iaith sydd ar gael ar amser neu ddyddiad y cyfarfod arfaethedig, ac sy’n gallu delio â’r mater yn Gymraeg, rhaid i’r sefydliad gynnig:

- Os yw'r sefydliad yn cyflogi aelod staff Cymraeg ei iaith sy'n gallu delio â'r mater, aildrefnu'r cyfarfod ar gyfer adeg pryd y bydd aelod staff sy'n gallu delio â'r mater yn Gymraeg ar gae i fynychu'r cyfarfod
 - Aildrefnu'r cyfarfod ar gyfer adeg pryd y gellir darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu gyfieithu olynol
 - rhoi cyfle i'r unigolyn neu'r unigolion drafod y mater yn Gymraeg, ond drwy ohebiaeth."
- 42 "Oni bai fod y staff sy'n mynychu'r cyfarfod yn gwybod pa un yw dewis iaith yr unigolyn neu'r unigolion sy'n mynychu'r cyfarfod, rhaid gofyn iddynt a ydynt am siarad Cymraeg yn y cyfarfod, dylid egluro, os oes angen, mai dim ond os oes gan y sefydliad aelod staff Cymraeg ei iaith sydd ar gael ac sy'n gallu delio â'r mater yn Gymraeg y gellir gwneud hyn."
- 43 "Os yw'n hysbys mai Cymraeg yw dewis iaith yr unigolyn neu'r unigolion sy'n mynychu'r cyfarfod, neu os dywed unrhyw un sy'n mynychu'r cyfarfod ei fod am siarad Cymraeg, a bod gan y sefydliad aelod staff Cymraeg ei iaith sydd ar gael i fynychu'r cyfarfod ac sy'n gallu delio â'r mater yn Gymraeg, rhaid i aelod neu aelodau staff Cymraeg eu hiaith sy'n gallu delio â'r mater yn Gymraeg fynychu'r cyfarfod."
- 44 "Os yw'n hysbys mai Cymraeg yw dewis iaith yr unigolyn neu'r unigolion sy'n mynychu'r cyfarfod, neu os dywed unrhyw un sy'n mynychu'r cyfarfod ei fod am siarad Cymraeg, ac nad oes gan y sefydliad aelod staff Cymraeg ei iaith sydd ar gael adeg y cyfarfod ac sy'n gallu delio â'r mater yn Gymraeg, rhaid i'r sefydliad gynnig:
- os yw'r sefydliad yn cyflogi aelod staff Cymraeg ei iaith sy'n gallu delio â'r mater, rhaid aildrefnu'r cyfarfod ar gyfer adeg pryd y bydd aelod staff sy'n gallu delio â'r mater yn Gymraeg ar gael i fynychu'r cyfarfod
 - aildrefnu'r cyfarfod ar gyfer adeg pryd y gellir darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu gyfieithu olynol
 - rhoi cyfle i'r unigolyn neu'r unigolion drafod y mater yn Gymraeg, ond drwy ohebiaeth."
- 45 "Nid yw'r safonau hyn yn berthnasol os yw amgylchiadau yn golygu bod risg i iechyd a diogelwch unrhyw un, neu os oes angen i unrhyw swyddog neu asiantaeth gorfodi'r gyfraith neu unrhyw wasanaeth brys gael mynediad i eiddo neu unrhyw safle arall"
- 46 "Rhaid i wahoddiadau i gyfarfodydd cyhoeddus lle y caiff y gwahoddedigion gyfle i annerch y cyfarfod neu gyfrannu at

drafodaethau unrhyw grwpiau trafod ofyn i'r rhai sy'n derbyn y gwahoddiad, gan gynnwys staff y sefydliad, nodi a ydynt yn dymuno annerch y cyfarfod yn Gymraeg, neu siarad Cymraeg mewn unrhyw grŵp trafod."

- 47 "Rhaid gofyn i unrhyw un, gan gynnwys staff y sefydliad, fydd yn rhoi cyflwyniad neu'n traddodi araith yn y cyfarfod neu'n ei gadeirio neu'n ei lywyddu, a ydynt yn dymuno annerch y cyfarfod yn Gymraeg neu siarad Cymraeg mewn unrhyw grŵp trafod."
- 48 "Rhaid darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu gyfieithu olynol yn y cyfarfod os bydd unrhyw un o'r amodau canlynol yn berthnasol (nid yw hyn yn berthnasol i grwpiau trafod):
- mae mwy na 5 o bobl, heb gynnwys unrhyw un syn rhoi cyflwyniad neu'n traddodi araith yn y cyfarfod neu'n ei gadeirio neu'n ei lywyddu, wedi nodi eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg
 - mae dros 5% o'r rhai sy'n bwriadu bod yn bresennol, heb gynnwys unrhyw un sy'n rhoi cyflwyniad neu'n traddodi araith yn y cyfarfod neu'n ei gadeirio neu'n ei lywyddu, wedi dweud eu bod am ddefnyddio'r Gymraeg
 - bydd y Gymraeg yn cael ei defnyddio gan unrhyw un syn rhoi cyflwyniad neu'n traddodi araith yn y cyfarfod, neu'n ei gadeirio neu'n ei lywyddu
 - mae'r pwnc dan drafodaeth yn ymwneud ag un neu ragor o'r canlynol:
 - plant a phobl ifanc
 - datblygu cymunedol
 - amaethyddiaeth
 - datblygu gwledig
 - diwylliant
 - addysg a hyfforddiant, neu
 - hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg."
- 49 "Os yw gwahoddiadau i fynychu cyfarfodydd cyhoeddus, lle bydd gan y gwahoddedigion gyfle i annerch y cyfarfod neu gyfrannu at drafodaethau unrhyw grŵp trafod, yn gofyn i'r cyhoedd adael i'r trefnwyr wybod ymlaen llaw eu bod yn bwriadu mynychu'r cyfarfod, rhaid i'r gwahoddiad ofyn i'r rhai sy'n derbyn gwahoddiad, gan gynnwys staff y sefydliad, nodi a ydynt yn dymuno annerch y cyfarfod yn Gymraeg neu siarad Cymraeg mewn unrhyw grŵp trafod."
- 50 "Rhaid gofyn i unrhyw un, gan gynnwys staff y sefydliad, fydd yn rhoi cyflwyniad neu'n traddodi araith yn y cyfarfod neu'n ei gadeirio neu'n ei

lywyddu, nodi a ydynt yn dymuno annerch y cyfarfod yn Gymraeg neu siarad Cymraeg mewn unrhyw grŵp trafod.”

- 51 “Rhaid darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu gyfieithu olynol yn y cyfarfod os bydd unrhyw un o'r amodau canlynol yn berthnasol (nid yw hyn yn berthnasol i grwpiau trafod):
- mae mwy na 5 o bobl, heb gynnwys unrhyw un sy'n rhoi cyflwyniad neu'n traddodi araith yn y cyfarfod, neu'n ei gadeirio neu'n ei lywyddu, wedi nodi eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg
 - mae dros 5% o'r rhai sy'n bwriadu bod yn bresennol, heb gynnwys unrhyw un sy'n rhoi cyflwyniad neu'n traddodi araith yn y cyfarfod, neu'n ei gadeirio neu'n ei lywyddu, wedi dweud eu bod am ddefnyddio'r Gymraeg
 - bydd y Gymraeg yn cael ei defnyddio gan unrhyw un sy'n rhoi cyflwyniad neu'n traddodi araith yn y cyfarfod neu'n ei gadeirio neu'n ei lywyddu
 - mae'r pwnc dan drafodaeth yn ymwneud ag un neu ragor o'r canlynol:
 - plant a phobl ifanc
 - datblygu cymunedol
 - amaethyddiaeth
 - datblygu gwledig
 - diwylliant
 - addysg a hyfforddiant, neu
 - hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg
 - mae'r cyfarfod yn mynd i gael ei gynnal mewn ardal awdurdod lleol lle, yn ôl y Cyfrifiad diwethaf, mae dros 20% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg”
- 52 “Os bydd pump neu ragor o siaradwyr Cymraeg yn mynychu cyfarfod cyhoeddus lle y bydd grwpiau trafod rhaid cynnig cyfle i'r siaradwyr Cymraeg fod yn rhan o'r grŵp trafod lle y mae pob aelod o'r grŵp yn dymuno cymryd rhan drwy gyfrwng y Gymraeg”
- 53 “Rhaid i unrhyw wahoddiadau i gyfarfodydd cyhoeddus a anfonir yn Saesneg (gan gynnwys ffurflenni ymateb neu ddeunydd tebyg a anfonir gyda'r gwahoddiadau) gael ei hanfon yn Gymraeg hefyd”
- 54 “Pan fydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu gyfieithu olynol yn cael ei ddarparu mewn unrhyw gyfarfod, rhaid egluro i unrhyw siaradwyr Cymraeg sy'n cadeirio neu'n llywyddu'r cyfarfod neu sy'n siarad yn ystod y cyfarfod bod croeso iddynt wneud hynny yn Gymraeg.”

- 55 “Pan fydd y Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn cyfarfod, rhaid i unrhyw gyflwyniadau sy’n dangos testun Saesneg ar sgrin ddangos y testun hwnnw yn Gymraeg hefyd.”
- 56 “Rhaid i’r sefydliad beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg mewn seremonïau gwobrwy y mae’n ei threfnu.”
- 57 “Rhaid i’r sefydliad beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg mewn digwyddiadau cyhoeddus y mae’n eu trefnu, er enghraifft gwyliau, digwyddiadau chwaraeon a digwyddiadau i’r teulu.”
- 58 “Rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu hysbysebu Saesneg(gan gynnwys deunydd a ddefnyddir i dargedu’r cyhoedd) ymddangos ar y cyd â fersiwn gyfatebol Gymraeg. Rhaid ‘r fersiwn Gymraeg beidio â bod yn llai amlwg neu hygyrch na’r fersiwn Saesneg Nid yw’r safon hon yn berthnasol i hysbysebion Saesneg mewn papurau newydd neu gylchgronau *(neu ddeunydd tebyg) Saesneg.”
- 59 “Rhaid i unrhyw hysbysebion Saesneg mewn papurau newydd neu gylchgronau (neu ddeunydd tebyg) Saesneg a ddosberthir yn bennaf neu’n gyfan gwbl yng Nghymru, ymddangos ar y cyd â fersiwn gyfatebol Gymraeg. Rhaid i’r fersiwn Gymraeg beidio â bod yn llai amlwg na’r fersiwn Saesneg.”
- 60 “Mewn cyhoeddiadau Cymraeg, rhaid i’r hysbysebion fod yn Gymraeg yn unig.”
- 61 “Rhaid i hysbysebion teledu, sinema, ar-lein a radio Saesneg ymddangos ar y cyd â fersiwn gyfatebol Gymraeg.”
- 62 “Rhaid i ymgyrchoedd teledu sy’n ymddangos ar S4C fod yn Gymraeg yn unig. Rhaid i ymgyrchoedd radio sy’n cael eu darlledu yn ystod rhaglenni Cymraeg fod yn Gymraeg yn unig.”
- 63 “Ni ddylid defnyddio is-deitlau Cymraeg ar gyfer hysbysebion sydd wedi’u ffilmio yn Saesneg.”
- 64 “Ni ddylid dybio hysbysebion i’r Gymraeg ar wahân i enghreifftiau o drosleisio, pryd y gellir darparu hynny yn Gymraeg ar hysbysebion lle roedd y trosleisio gwreiddiol yn Saesneg.”
- 65 “Rhaid i linellau ffôn a agorir i alluogi’r cyhoedd i ymateb i ymgyrchodd cyhoeddusrwydd a hysbysebu yng Nghymru gael eu sefydlu yn unol â’r safonau a bennir ar gyfer llinellau cymorth, ac eithrio’r safon ar gyfer oriau agor. Rhaid darparu gwasanaeth Cymraeg pryd bynnag y darperir gwasanaeth Saesneg. Pan ddefnyddir dull arall i alluogi’r

cyhoedd i ymateb yn Saesneg, gan gynnwys systemau ymateb ar-lein, rhaid i'r dull hwnnw hefyd alluogi'r cyhoedd i ymateb yn Gymraeg."

66 "Pan fydd arddangosfa glywedol, cyfryngau rhyngweithiol neu daith glywedol yn cael eu cynhyrchu yn Saesneg, rhaid iddynt ymddangos ar y cyd â fersiynau Cymraeg cyfatebol. Rhaid i'r fersiwn Gymraeg beidio â bod yn llai amlwg neu hygyrch na'r fersiwn Saesneg."

67 "Rhaid i unrhyw ddeunydd arddangos sydd i'w ddefnyddio yn Saesneg ymddangos ar y cyd â fersiwn gyfatebol Gymraeg. Rhaid i'r fersiwn Gymraeg beidio â bod yn llai amlwg neu hygyrch na'r fersiwn Saesneg"

68 "Lefel 1 (Dim system sgorio):

- Rhaid i gyhoeddiadau a gyhoeddir yn Saesneg gael eu cyhoeddi hefyd yn Gymraeg, naill ai gyda'r fersiwn Cymraeg yn rhan o'r un ddogfen a'r fersiwn Saesneg, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.
- Os oes fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, rhaid i'r fersiwn Gymraeg gyfateb i'r fersiwn Saesneg. Rhaid i'r fersiwn Gymraeg fod ar gael ar yr un pryd â'r fersiwn Saesneg, a rhaid iddi fod mor hygyrch â'r fersiwn Saesneg. Rhaid i'r fersiwn Saesneg egluro bod y deunydd ar gael yn Gymraeg.

Lefel 2 (System sgorio):

- Er mwyn penderfynu a oes yn rhaid i gyhoeddiad a ddarperir yn Saesneg fod ar gael yn Gymraeg, rhaid i'r sefydliad ddefnyddio'r fethodoleg sgorio yn atodiad 1. Os oes rhaid darparu cyhoeddiad yn Gymraeg yn unol â'r fethodoleg sgorio, gellir ei gyhoeddi naill ai gyda'r fersiwn Gymraeg yn rhan o'r un ddogfen a'r fersiwn Saesneg neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.
- Os oes fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, rhaid i'r fersiwn Gymraeg gyfateb i'r fersiwn Saesneg. Rhaid i'r fersiwn Gymraeg fod ar gael ar yr un pryd â'r fersiwn Saesneg a rhaid iddi fod yr un mor hygyrch â'r fersiwn Saesneg, Rhaid i'r fersiwn Saesneg egluro bod y deunydd ar gael yn Gymraeg."

69 "Os codir tâl, neu pe codid tâl, am gyhoeddiad Saesneg, ni ddylai pris y fersiwn Gymraeg, neu'r fersiwn sy'n cynnwys testun Cymraeg yn ogystal â'r testun Saesneg, fod un uwch na hynny. Os yw'r fersiwn Saesneg i'w gael am ddim, neu y byddai am ddim pe cyhoeddid ef, ni ddylid codi tâl am y fersiwn Gymraeg, neu'r fersiwn sy'n cynnwys y testun Cymraeg yn ogystal â'r testun Saesneg."

70 “Lefel 1 (Dim system sgorio):

- Rhaid i unrhyw ffurflen a gyhoeddir yn Saesneg gael ei chyhoeddi hefyd yn y Gymraeg, naill ai gyda'r fersiwn Gymraeg yn rhan o'r un ddogfen â'r fersiwn Saesneg neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.
- Os oes fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, rhaid i'r fersiwn Gymraeg gyfateb i'r fersiwn Saesneg, Rhaid i'r fersiwn Gymraeg fod ar gael ar yr un pryd â'r fersiwn Saesneg, a rhaid iddi fod yr un mor hygyrch â'r fersiwn Saesneg. Rhaid i'r fersiwn Saesneg egluro bod y deunydd ar gael yn Gymraeg.

Lefel 2 (System sgorio):

- Er mwyn penderfynu a oes yn rhaid i ffurflen a ddarperir yn Saesneg fod ar gael yn Gymraeg, rhaid i'r sefydliad ddefnyddio'r fethodoleg sgorio yn atodiad 2. Os oes rhaid i ffurflen fod ar gael yn Gymraeg yn unol â fethodoleg sgorio, gellir ei chyhoeddi naill ai gyda'r fersiwn Gymraeg yn rhan o'r un ddogfen â'r fersiwn Saesneg neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.
- Os oes fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, rhaid i'r fersiwn Gymraeg gyfateb i'r fersiwn Saesneg. Rhaid i'r fersiwn Gymraeg fod ar gael ar yr un pryd â'r fersiwn Saesneg. Rhaid i'r fersiwn Saesneg egluro bod y deunydd ar gael yn Gymraeg”

71 “Pan fydd sefydliad yn rhoi gwybodaeth ar fersiwn Gymraeg o ffurflen a anfonir drwy'r post neu e-bost at aelod o'r cyhoedd, rhaid rhoi'r wybodaeth honno yn Gymraeg”

72 “Pan fydd sefydliad yn rhoi gwybodaeth ar ffurflen dwyieithog a anfonir drwy'r post neu e-bost at berson yn Saesneg, ac nad yw dewis iaith y person hwnnw'n hysbys, rhaid rhoi'r wybodaeth honno yn Gymraeg hefyd.”

73 “Pan fydd sefydliad yn rhoi gwybodaeth ar ffurflen dwyieithog a anfonir drwy'r post neu e-bost at berson y mae'n hysbys mai Cymraeg yw ei ddewis iaith, rhaid rhoi'r wybodaeth honno yn Gymraeg hefyd.”

74 “Os oes rhaid ymdrin o fewn cyfnod penodol â ffurflen a lenwyd yn Saesneg, rhaid ymdrin o fewn yr un cyfnod penodol â ffurflen a lenwyd yn Gymraeg.”

75 “Lefel 1: Rhaid i wefannau fod yn gwbl ddwyieithog.

- Lefel 2: Yn ystod pob blwyddyn ariannol, rhaid i 50% o'r holl dudalennau ar y we a gyhoeddwyd mewn blynyddoedd a fu yn Saesneg, ac nid yn Gymraeg, gael eu cyhoeddi yn Gymraeg. Rhaid rhoi blaenoriaeth i'r tudalennau yr ymwelir â hwy fwyaf aml ac i dudalennu rhyngweithiol. Rhaid i unrhyw dudalennau newydd ar y we a gyhoeddir yn ystod y flwyddyn ariannol yn Saesneg, gael eu cyhoeddi yn Gymraeg hefyd.
- Lefel 3: Yn ystod pob blwyddyn ariannol, rhaid i 25% o'r holl dudalennau ar y we a gyhoeddwyd mewn blynyddoedd a fu yn Saesneg, ac nid yn y Gymraeg, gael eu cyhoeddi yn Gymraeg. Rhaid rhoi blaenoriaeth i'r tudalennau yr ymwelir â hwy fwyaf aml ac i dudalennau rhyngweithiol. Rhaid i unrhyw dudalennau newydd ar y we a gyhoeddir yn ystod y flwyddyn ariannol yn Saesneg, gael eu cyhoeddi yn Gymraeg hefyd.
- Lefel 4: Yn ystod pob blwyddyn ariannol, rhaid i 10% o'r holl dudalennau ar y we a gyhoeddwyd mewn blynyddoedd a fu yn Saesneg, ac nid yn y Gymraeg, gael eu cyhoeddi yn y Gymraeg. Rhaid rhoi blaenoriaeth i'r tudalennau yr ymwelir â hwy fwyaf aml ac i dudalennau rhyngweithiol. Rhaid i unrhyw dudalennau newydd ar y we a gyhoeddir yn ystod y flwyddyn ariannol yn Saesneg, gael eu cyhoeddi yn Gymraeg hefyd."

- 76 "Rhaid i bob ap newydd sy'n cynnig gwasanaeth Saesneg a gyhoeddir gan sefydliad, hefyd gynnig gwasanaeth cyfatebol Cymraeg."
- 77 "Pan fydd ap yn cynnig gwasanaeth Saesneg, ac nid gwasanaeth Cymraeg, rhaid iddo gael ei gyhoeddi ar ffurf sy'n caniatáu iddo gynnig gwasanaeth Cymraeg yn ogystal â gwasanaeth Saesneg."
- 78 "Rhaid i bob arwydd parhaol a dros dro, yn rhai newydd a rhai sy'n cael eu hadnewyddu, sy'n rhoi gwybodaeth i eraill yn Saesneg, gynnwys yr un wybodaeth yn Gymraeg. Rhaid i'r tesun beidio â bod yn llai amlwg na'r testun Saesneg"
- 79 "Os bydd unrhyw un o'r amgylchiadau isod yn codi pan fydd arwydd Saesneg yn cael ei arddangos, rhaid arddangos arwydd Cymraeg ar wahân, neu arwydd sy'n amnewid rhwng y Gymraeg a'r Saesneg:
- Nid oes digon o le i godi arwydd sy'n ddigon mawr i gynnwys y testun Cymraeg a'r testun Saesneg, gyda'r testun mewn

ffont o faint a fyddai fel arfer yn cael ei ddefnyddio i sicrhau y gellir darllen yr arwydd yn hawdd

- Nid oes digon o le ar arwydd electronig i gynnwys y testun Cymraeg a Saesneg Mewn achos o'r fath, gellir arddangos testun Cymraeg ar arwydd electronig ar wahân, neu gall y testun ar bob arwydd newid bob yn ail rhwng y Gymraeg a'r Saesneg."

- 80 "Os cynhyrchir arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, rhaid i'r arwydd Cymraeg fod yn gyfartal o ran fformat, maint a caf ansawdd â'r arwydd Saesneg, a rhaid iddo beidio â bod yn llai amlwg."
- 81 "Lefel 1: Rhaid i dimau'r dderbynfa allu cynnig gwasanaeth yn y Gymraeg drwy'r amser
- Lefel 2: Rhaid i dimau'r dderbynfa allu darparu gwasanaeth am ô leiaf 75% o'r amser y gall sefydliad dderbyn ymwelwyr.
 - Lefel 3: Rhaid i dimau'r dderbynfa allu darparu gwasanaeth Cymraeg am o leiaf 50% o'r amser y gall sefydliad dderbyn ymwelwyr.
 - Lefel 4: Rhaid i dimau'r dderbynfa allu darparu gwasanaeth Cymraeg am o leiaf 25% o'r amser y gall y sefydliad dderbyn ymwelwyr. "
- 82 "Rhaid i unrhyw hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff sy'n ymddangos yn Saesneg mewn cyhoeddiadau Saesneg a ddosberthir yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru, gynnwys cyfieithiad Cymraeg neu rhaid bod fersiwn Gymraeg gyfatebol ar wahân ar yr un cyhoeddiad. Nid yw'r safon hon yn berthnasol i hysbysiadau recriwtio am swyddi lle y mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol."
- 83 "Pan fydd hysbysiad recriwtio yn cael ei roi mewn cyhoeddiad Saesneg a gyhoeddir yng Nghymru a/neu Lloegr am swydd lle y mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, rhaid i'r hysbysiad fod naill ai yn Gymraeg, neu, os yw yn Saesneg, rhaid iddo gynnwys cyfieithiad Cymraeg neu rhaid bod fersiwn Cymraeg gyfatebol ar wahân yn yr un cyhoeddiad."
- 84 "Os oes fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, rhaid i'r fersiwn Gymraeg fod o'r un maint ac ansawdd â'r fersiwn Saesneg. Rhaid i'r fersiwn Gymraeg beidio â bod yn llai amlwg na'r fersiwn Saesneg a rhaid iddi gael ei chyhoeddi ar yr yn pryd â'r fersiwn Saesneg."

- 85 “Rhaid i hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff sy’n ymddangos mewn cyhoeddiadau Cymraeg fod yn Gymraeg.”
- 86 “Rhaid i unrhyw hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff, sy’n ymddangos yn Saesneg, gynnwys cyfieithiad Cymraeg neu rhaid bod fersiwn Gymraeg gyfatebol ar wahân. Rhaid i’r fersiwn Gymraeg beidio â bod yn llai amlwg na’r fersiwn Saesneg a rhaid iddi gael ei chyhoeddi ar yr yn pryd â’r fersiwn Saesneg.”
- 87 “Pan fydd ffurflen gais a deunydd esboniadol cysylltiedig yn cael eu cyhoeddi yn Saesneg, rhaid iddynt hefyd gael eu cyhoeddi yn Gymraeg.”
- 88 “Pan fydd ymgeiswyr yn gallu gwneud cais am gymorth grant yn Saesneg, rhaid iddynt hefyd allu gwneud hynny yn Gymraeg.”
- 89 “Rhaid i ffurflenni cais ofyn am wybodaeth am unrhyw gamau sydd i’w cymryd, o ran y gweithgarwch y gwneir cais am gymorth grant amdano, er mwyn darparu gwasanaetha Cymraeg wyneb yn wyneb, cyhoeddi deunyddiau Cymraeg a chyhoeddi ar-lein yn Gymraeg.”
- 90 “Os oes rhaid ymdrin o fewn cyfnod penodol â chais am grant a lenwyd yn Saesneg, rhaid ymdrin o fewn yr un cyfnod penodol â chais am grant a lenwyd yn Gymraeg.”
- 91 “Rhaid i wahoddiadau i dendro a gyhoeddir yn Saesneg gael eu cyhoeddi hefyd yn Gymraeg yn achos contractau sy’n gysylltiedig, yn gyfan gwbl neu’n rhannol, â gweithgareddau fydd yn hybu defnyddio’r Gymraeg”
- 92 “Pan caiff ymgeiswyr gyflwyno tendrau yn Saesneg, rhaid iddynt hefyd allu gwneud hynny yn Gymraeg.”
- 93 “Rhaid i ddogfennau tendro ofyn am wybodaeth am unrhyw gamau sydd i’w cymryd, o ran y gweithgarwch sy’n berthnasol i’r contract a gynigir, er mwyn darparu gwasanaethau Cymraeg wyneb yn wyneb, cyhoeddi deunyddiau Cymraeg a chyhoeddi ar-lein yn Gymraeg.”
- 94 “Os oes rhaid ymdrin o fewn cyfnod penodol â thendr a gyflwynwyd yn Saesneg, rhaid ymdrin o fewn yr un cyfnod penodol â thendr a gyflwynwyd yn Gymraeg.”
- 95 “Rhaid cynnal ymgyrch gyhoeddusrwydd i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau Cymraeg y sefydliad ac annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio’r gwasanaethau hynny.”

- 96 “Rhaid sefydlu gweithdrefnau i sicrhau bod defnyddwyr unrhyw un o'r gwasanaethau y gellir eu darparu yn Gymraeg, yn unol â un o safonau'r Gymraeg, yn ymwybodol bod gwasanaeth ar gael yn Gymraeg a'u bod yn cael eu hannog i ddefnyddio'r gwasanaethau Cymraeg hynny.”
- 97 “Rhaid i'r safonau y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy gael eu cyhoeddi ar wefan y sefydliad a rhaid eu bod ar gael i'w harchwilio yn unrhyw un o swyddfeydd y sefydliad sydd ar agor i'r cyhoedd.”
- 98 “Pan fydd gan sefydliad hunaniaeth gorfforaethol a/neu frand Saesneg, rhaid iddo hefyd gael hunaniaeth gorfforaethol a/neu frand Cymraeg. Pan fydd enw, manylion cyswllt, logo, brand, sloganau a gwybodaeth safonol arall am sefydliad yn ymddangos yn Saesneg ar ddeunydd sy'n arddangos ei frand a'i hunaniaeth gorfforaethol, rhaid iddo hefyd ymddangos yn Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys papur ysgrifennu ac ati– a deunydd megis cardiau busnes, bathodynau adnabod, pasiau, tocynnau, cardiau cydnabod, slipiau cyfarch, gwahoddiadau a cherbydau.”
- 99 “Rhaid cyhoeddi yn Gymraeg unrhyw ddatganiad i'r wasg a anfonir at bersonau sy'n darparu newyddion i'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg, onid oes gan y sefydliad, am resymau iechyd a diogelwch, ddigon o amser i gyfieithu'r datganiad Saesneg i'r Gymraeg.”
- 100 “Pan fydd datganiad i'r wasg yn cael ei gyhoeddi yn Saesneg ar wefan sefydliad, rhaid cyhoeddi'r fersiwn Gymraeg hefyd ar wefan y sefydliad. Os yw'r fersiwn Gymraeg ar gael pan gyhoeddir y fersiwn Saesneg. Rhaid cyhoeddi'r fersiwn Gymraeg ar wefan y sefydliad ar yr un pryd. Os nad yw'r fersiwn Gymraeg ar gael pan gyhoeddir y fersiwn Saesneg, rhaid iddi fod ar gael yn Gymraeg a'i chyhoeddi ar wefan y sefydliad o fewn tridiau.”
- 101 “Wrth gynnal arolygon cyhoeddus, rhaid i unrhyw holiaduron a deunydd atodol sydd i'w defnyddio gan y cyhoedd, sydd ar gael yn Saesneg, fod ar gael hefyd yn Gymraeg. Dylai'r fersiwn Gymraeg gyfateb i'r fersiwn Saesneg. Rhaid iddi fod ar gael ar yr un amser â'r fersiwn Saesneg a rhaid iddi fod yr un mor hygyrch â'r fersiwn Gymraeg Rhaid i'r fersiwn Saesneg egluro bod y deunydd ar gael yn Gymraeg.”
- 102 “Lefel 1: Pan fydd sefydliad yn cynnig cwrs Saesneg, rhaid iddo hefyd ei chynnig yn Gymraeg.
- Lefel 2: Pan fydd sefydliad yn trefnu cwrs, rhaid asesu'r angen i'w ddarparu yn Gymraeg. Wrth gynnal yr asesiad hwn, rhaid ystyried dewis iaith y rhai sy'n debygol o fynychu, ac a oes hyfforddwyr ar gael

sy'n siarad Cymraeg. Os yw'r asesiad yn nodi bod niferoedd digonol yn dymuno mynychu'r cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg, rhaid i'r cwrs gael ei gynnig yn Gymraeg i'r bobl hynny. At ddibenion y safon hon, mae 'niferoedd digonol' yn golygu'r isafswm y byddai'r sefydliad yn ei gwneud yn ofynnol i fynychu'r un cwrs drwy gyfrwng y Saesneg, er mwyn iddo fod yn ymarferol cynnal y cwrs."

- 103 "Pan fod deunydd yn cael ei ddrafftio yn Saesneg, rhaid i unrhyw gyfieithiad o'r deunydd i'r Gymraeg fod o'r un safon o leiaf â'r drafft Saesneg gwreiddiol."
- 104 "Rhaid i unrhyw gyhoeddiadau Saesneg ar systemau annerch y cyhoedd, at ddiben pobl heblaw staff y sefydliad, gael eu gwneud yn Gymraeg hefyd."
- 105 "Rhaid i negeseuon sain Saesneg mewn lifftiau yn adeiladau sefydliad, pan mai'r sefydliad sy'n gyfrifol am y lifftiau hynny, gael eu hateb gan negeseuon cyfatebol Cymraeg."
- 106 "Rhaid i sefydliadau ddatblygu cronfa ddata neu gronfeydd data, neu ddiwygio cronfa ddata neu gronfeydd data cyfredol syn hygyrch i'r holl staff, ar gyfer cofnodi enwau'r sawl sydd wedi rhoi gwybod i'r sefydliad eu bod yn dymuno i'r sefydliad ymdrin â hwy yn Gymraeg, a'r mathau o wasanaethau y maent yn dymuno eu cael yn Gymraeg."

Safonau Lluio Polisi

- 107 "Rhaid i berson sy'n gwneud penderfyniad polisi ystyried pa effeithiau, os o gwbl, (ac ai effeithiau cadarnhaol ynteu andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar y canlynol:
- cyfleoedd i bersonau eraill ddefnyddio'r Gymraeg, neu
 - beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg."
- 108 "Rhaid i berson sy'n gwneud penderfyniad polisi ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad fel bod y penderfyniad yn cael effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau mwy cadarnhaol, boed uniongyrchol neu anuniongyrchol, ar y canlynol:
- cyfleoedd i bersonau eraill ddefnyddio'r Gymraeg, neu
 - beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg."
- 109 "Rhaid i berson sy'n gwneud y penderfyniad polisi ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad fel nad yw'r penderfyniad yn cael effeithiau

andwyol, neu fel bod y penderfyniad yn cael effeithiau llai andwyol, boed uniongyrchol neu anuniongyrchol ar y canlynol:

- cyfleoedd i bersonau eraill ddefnyddio'r Gymraeg, neu
- beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg."

110 "Rhaid i ddogfennu ymgynghori drafod a cheisio barn ar y canlynol:

- yr effeithiau, os o gwbl, (ac ai effeithiau cadarnhaol ynteu andwyol y byddai'r polisi dan ystyriaeth yn eu cael ar y canlynol:
(a) cyfleoedd i bersonau eraill ddefnyddio'r Gymraeg, neu
(b) beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg."
- a ellid gwneud y polisi dan ystyriaeth fel ei fod yn cael effeithiau cadarnhaol, neu fwy cadarnhaol ar y canlynol:
(a) cyfleoedd i bersonau eraill ddefnyddio'r Gymraeg, neu
(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg."
- Sut gellid gwneud y polisi dan ystyriaeth fel nad yw'n cael effeithiau andwyol, neu ei fod yn cael llai o effeithiau andwyol, ar y canlynol:
(a) cyfleoedd i bersonau eraill ddefnyddio'r Gymraeg, neu
(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg."

Safonau Gweithredu

111 "Rhaid i'r sefydliad sefydlu pwyllgor i ystyried sut y gellid cynyddu'r cyfleoedd i staff y sefydliad ddefnyddio'r Gymraeg wrth wneud eu gwaith. Nid oes angen sefydlu pwyllgor o'r fath os oes un yn bodoli eisoes."

112 "Rhaid i'r pwyllgor ystyried pa gamau y gall y sefydliad eu cymryd ynglŷn â'r canlynol:

- addysgu staff (er enghraifft drwy ganllawiau a chysiau ymwybyddiaeth iaith):
 - hanes y Gymraeg a'i chyfraniad i ddiwylliant a gwedd cymdeithasol Cymru
 - manteision cynnig gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg
 - y gofyniad i'r sefydliad weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg
- cynnwys modiwl ymwybyddiaeth iaith mewn unrhyw gwrs cynefino ar gyfer aelodau newydd o'r staff
- cynnig cyrsiau i staff sy'n ymwneud â datblygu polisïau, datblygu gwasanaethau newydd, dyfarnu grantiau a/neu ddyfarnu contractau

am yr angen iddynt gyflawni eu dyletswyddau yn unol â safonau perthnasol y Gymraeg

- caniatáu i staff siarad Cymraeg mewn cyfarfodydd mewnol, a galluogi iddynt wneud hynny
- caniatáu i staff gadw nodiadau o gyfarfodydd yn Gymraeg, a galluogi iddynt wneud hynny
- gwneud i staff fod yn ymwybodol fod croeso iddynt anfon e-byst at aelodau eraill o'r staff a phersonau eraill yn Gymraeg
- cynnig hyfforddiant a chanllawiau i staff i'w galluogi i wneud y canlynol:
 - ateb galwadau ffôn yn Gymraeg neu ddefnyddio cyfarchiad Cymraeg sy'n cyfateb i'r cyfarchiad a roddir yn Saesneg
 - holi am ddewis iaith y galwr
 - trosglwyddo galwadau i unrhyw aelodau staff Cymraeg eu hiaith sy'n gallu delio â'r alwad
 - ymdrin â sefyllfaoedd pan nad oes aelodau staff Cymraeg eu hiaith sy'n gallu delio â'r alwad ar gael ar adeg yr alwad
 - ymdrin â sefyllfaoedd pan nad oes gan y sefydliad aelodau staff Cymraeg eu hiaith sy'n gallu delio â'r alwad
- ei gwneud yn bosibl i staff gael gafael ar wybodaeth i'w galluogi i drosglwyddo galwadau ffôn i unrhyw aelodau staff Cymraeg eu hiaith sy'n gallu delio â'r alwad, os yw'r galwr yn dymuno cynnal ei fusnes yn Gymraeg
- darparu hyfforddiant, canllawiau ac adnoddau i staff derbynfa i'w galluogi i wneud y canlynol:
 - croesawu ymwelwyr yn Gymraeg a delio ag ymwelwyr yn Gymraeg
 - holi am ddewis iaith ymwelwyr
 - trefnu i aelodau Cymraeg a chymwys o'r staff i ddelio ag ymwelwyr, oni bai fod yr ymwelydd yn gofyn am siarad ag aelod staff penodol y mae'n ei enwi
 - ymdrin â sefyllfaoedd pan nad oes aelodau staff Cymraeg eu hiaith sy'n gallu delio â'r ymwelydd ar gael ar adeg yr ymweliad
 - ymdrin â sefyllfaoedd pan nad oes gan y sefydliad aelodau staff Cymraeg eu hiaith sy'n gallu delio â'r ymwelydd
- cyhoeddi, yn Gymraeg, unrhyw ddeunydd a gyhoeddir yn Saesneg ar unrhyw fewnrwyd a gynhelir gan y sefydliad
- cynnwys amodau mewn contractau ar gyfer gwasanaethau arlwyyo, glanhau a diogelwch er mwyn galluogi aelodau o'r staff i fanteisio ar y gwasanaethau hynny yn Gymraeg
- darparu, yn Gymraeg, unrhyw arwyddion sy'n rhoi gwybodaeth yn

Saesneg i staff

- arddangos, neu ddosbarthu i'r staff, fersiynau Cymraeg ar unrhyw bosteri a thaflenni a arddangosir neu a ddosberthir yn Saesneg
- gwneud, yn Gymraeg, unrhyw gyhoeddiadau i'r staff a wneir yn Saesneg ar systemau annerch y cyhoedd yn swyddfeydd y sefydliad, gan gynnwys cyhoeddiadau sydd wedi eu recordio ymlaen llaw
- sicrhau bod y gefnogaeth a'r dogfennau a ddarperir gan dimau Adnoddau Dynol ar gael yn Gymraeg
- cynnwys rhyngwyneb Cymraeg yn y systemau TGCh a ddefnyddir gan y staff
- ei gwneud yn bosibl i ddefnyddio'r acenion a ddefnyddir yn y Gymraeg yn y systemau TGCh a ddefnyddir gan y staff
- darparu, yn Gymraeg, unrhyw ffurflenni papur ac electronig a ddefnyddir gan y staff at ddibenion busnes a phersonél ac sydd ar gael yn Saesneg
- darparu, yn Gymraeg, unrhyw gylchlythyrau neu ddeunyddiau tebyg sydd ar gael yn Saesneg i'r staff
- darparu, yn Gymraeg, unrhyw hyfforddiant sydd ar gael yn Saesneg i'r staff
- darparu meddalwedd i'r staff i roi cymorth iddynt ddrafftio dogfennau Cymraeg, megis Cysill, Cysgeir, a rhyngwynebau Cymraeg Microsoft Office - a darparu canllawiau ar ddefnyddio'r adnoddau hyn
- ei gwneud yn bosibl i'r staff gael gafael ar adnoddau a chymorth i wella eu sgiliau ysgrifennu Cymraeg
- galluogi gweithwyr Cymraeg, neu is-gontractwyr Cymraeg sy'n darparu gwasanaethau ar eu rhan, i gael gafael ar gynnyrch a fydd yn galluogi eraill i wybod eu bod yn siarad Cymraeg
- cefnogi secondiadau i gyrff eraill sy'n gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn rhoi cyfleoedd i staff wella eu sgiliau Cymraeg
- annog staff i ddysgu Cymraeg, neu wella eu Cymraeg
- ariannu hyfforddiant Cymraeg i Oedolion ar gyfer staff y sefydliad
- galluogi'r staff i fynychu hyfforddiant Cymraeg i Oedolion yn ystod oriau gwaith."

- 113 "Rhaid i'r sefydliad baratoi cynllun yn nodi sut y cynyddir y cyfleoedd i'w staff ddefnyddio'r Gymraeg wrth eu gwaith."
- 114 "Rhaid i un aelod o'r staff o leiaf fod â'r rôl o gydgyssylltu'r gwaith sydd ei angen ar y sefydliad i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg."
- 115 "Rhaid i'r sefydliad gyhoeddi adroddiad blynyddol a'i anfon at Gomisiynydd y Gymraeg, yn nodi sut y cynyddodd y cyfleoedd i'w staff ddefnyddio'r Gymraeg wrth eu gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol."
- 116 "Rhaid i'r sefydliad sefydlu gweithdrefnau i sicrhau bod ganddo ddigon o staff Cymraeg â'r sgiliau priodol i gyflenwi gwasanaethau i'r cyhoedd er mwyn i'r gwasanaethau hynny allu cael u cyflawni yn Gymraeg, yn unol â'r safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n berthnasol i'r sefydliad."

- 117 “Rhaid i’r sefydliad gyhoeddi adroddiad blynyddol a’i anfon at Gomisiynydd y Gymraeg, yn nodi’r cynnydd a wnaeth i sicrhau bod ganddo ddigon o staff Cymraeg â’r sgiliau priodol i gyflenwi gwasanaethau i’r cyhoedd er mwyn i’r gwasanaethau hynny allu cael eu cyflenwi yn Gymraeg yn unol â’r safonau cyflenwi gwasanaethau syn berthnasol i’r sefydliad.”
- 118 “Lefel 1: Rhaid darparu, yn Gymraeg, unrhyw ffurflenni cais a phecynnau gwybodaeth cysylltiedig sydd ar gael yn Saesneg.
- Lefel 2: Rhaid darparu, yn Gymraeg, unrhyw ffurflenni cais a phecynnau gwybodaeth cysylltiedig sydd ar gael yn Saesneg ar gyfer pob swydd y mae rhuglder yn y Gymraeg yn cael ei ystyried yn beth dymunol neu hanfodol.
 - Lefel 3: Rhaid darparu, yn Gymraeg, unrhyw ffurflenni cais a phecynnau gwybodaeth cysylltiedig sydd ar gael yn Saesneg ar gyfer pob swydd y mae rhuglder yn y Gymraeg yn cael ei ystyried yn beth hanfodol.”
- 119 “Lefel 1): Rhaid darparu, yn Gymraeg, unrhyw ffurflenni cais a phecynnau gwybodaeth cysylltiedig sydd ar gael yn Saesneg.
- Lefel 2): Rhaid darparu, yn Gymraeg, unrhyw ffurflenni cais a phecynnau gwybodaeth gysylltiedig sydd ar gael yn Saesneg ar gyfer pob swydd y mae rhuglder yn y Gymraeg yn cael ei ystyried yn beth dymunol neu hanfodol.
 - Lefel 3): Rhaid darparu, yn Gymraeg, unrhyw ffurflenni cais a phecynnau gwybodaeth gysylltiedig sydd ar gael yn Saesneg ar gyfer pob swydd y mae rhuglder yn y Gymraeg yn cael ei ystyried yn beth hanfodol.”
- 120 “Wrth ddylunio neu ddatblygu gwefan, neu ailddylunio neu ailddatblygu gwefan sy’n bodoli eisoes, rhaid cymryd camau i sicrhau bod y wefan yn cefnogi ac hwyluso darparu gwasanaeth Cymraeg sy’n cyfateb i’r gwasanaeth Saesneg – a bod y wefan yn cefnogi defnyddio’r acenion a ddefnyddir yn Gymraeg.”
- 121 “Pan fydd sefydliadau’n datblygu neu’n prynu cynnyrch technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i’w defnyddio ganddynt i ddarparu gwasanaethau i eraill, rhaid iddynt sicrhau y bydd y cynnyrch hwnnw yn hwyluso’r gwaith o ddarparu gwasanaeth ganddynt hwy i eraill yn Gymraeg, a’r rheini’n cyfateb i unrhyw wasanaethau ddarperir gyda’r cynnyrch hwnnw yn Saesneg”

Safonau Hybu

- 122 “Rhaid i’r sefydliad sefydlu pwyllgor i ystyried sut y gall y sefydliad hybu a hwyluso defnyddio’r Gymraeg yn yr ardal, ac o fewn y cymunedau, a wasanaethir gan y sefydliad, nid oes angen sefydlu pwyllgor o’r fath os oes un yn bodoli eisoes.”
- 123 “Rhaid i’r pwyllgor:
- ystyried natur ieithyddol y cymunedau a wasanaethir (gan gynnwys nifer, canran a lleoliad y siaradwyr Cymraeg)
 - ystyried dyheadau siaradwyr Cymraeg a’r gymuned yn ehangach o ran defnyddio’r Gymraeg
 - ymgynghori â’r cyhoedd, y cyrff sy’n ymwneud â hybu neu hwyluso defnyddio’r Gymraeg, a Chomisiynydd y Gymraeg i geisio eu barn ynghylch yr hyn y dylai’r sefydliad ei wneud i hybu a hwyluso defnyddio’r Gymraeg
 - ystyried yr angen i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfleoedd i ddefnyddio’r iaith y tu allan i’r ysgol
 - ystyried y cyfleoedd sydd ar gael ar hyn o bryd i ddefnyddio’r Gymraeg ac a oes angen hwyluso cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg
 - ystyried y posibilrwydd o weithio mewn partneriaeth ag eraill, gan gynnwys sefydliadau sy’n gweithio ym maes hybu a hwyluso defnyddio’r Gymraeg, gan gynnwys drwy gytundebau lefel gwasanaeth
 - ystyried yr angen i ariannu gweithgareddau sydd â’r nod o hybu a hwyluso defnyddio’r Gymraeg
 - ystyried cyfleoedd i weithio tuag at gyfrannu at gyflawni’r nodau sydd yn y strategaeth a fabwysiadodd Gweinidogion Cymru yn unol ag adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan nodi sut y maent yn bwriadu hybu a hwyluso defnyddio’r Gymraeg.”
- 124 “Rhaid i’r sefydliad baratoi strategaeth iaith Gymraeg yn nodi sut y mae’n cynnig hybu a hwyluso defnyddio’r Gymraeg yn yr ardal, a o fewn cymunedau, a wasanaethir ganddo. Rhaid diwygio’r strategaeth bob pum mlynedd.”
- 125 “Rhaid i’r sefydliad anfon adroddiad blynyddol at Gomisiynydd y Gymraeg, gan nodi eu cynnydd o ran hybu a hwyluso defnyddio’r Gymraeg yn eu hardal, ac o fewn y cymunedau, a wasanaethwyd gan y sefydliad yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Rhad i’r adroddiad hefyd nodi lefel y cyllid a ddarparwyd gan y sefydliad yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol i gefnogi gweithgareddau a sefydlwyd i hybu a hwyluso defnyddio’r Gymraeg a/neu sefydliadu a sefydlwyd i hybu neu hwyluso defnyddio’r Gymraeg.”